**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**26 Hydref 2021**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Aelodau Etholedig:** Y Cynghorwyr Beth Lawton a Dewi Roberts

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod y Pwyllgor Safonau** | 26 Hydref 2021 |

## PWNC

Eitem 5:CAIS AM INDEMNIAD GAN GYNGHORYDD O DAN BOLISI'R CYNGOR

## PENDERFYNIAD

**Wedi edrych ar y cais yn ofalus iawn, a gan ystyried Polisi Indemniad Cyngor Gwynedd, a gynhwyswyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor, bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr aelod i'w hysbysu nad yw'r Pwyllgor Safonau mewn sefyllfa i gynnig indemniad iddo mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfreithiol yng ngwrandawiad y Pwyllgor Safonau. Mae'r achos mae'r cynghorydd yn amddiffyn yn ymwneud yn llwyr â'i rôl fel Cynghorydd Cyngor Tref. Byddai unrhyw benderfyniad yn effeithio ar y rôl honno'n unig, ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith ar rôl y cynghorydd fel aelod o Gyngor Gwynedd.**

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

O blaid 5
Yn erbyn 0
Atal 2

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.